UNIT(e) 2018

Rhaglen haf 12 wythnos o hyd o arbrofi, ymchwil, trafodaethau beirniadol, dangosiadau ffilm, digwyddiadau cymdeithasol, darlithoedd a mwy.

30 Mehefin – 22 Medi

GWAHODDIAD AM GYFLWYNIADAU

Rydym yn croesawu datganiadau o ddiddordeb gan artistiaid sydd am gymryd rhan yn UNIT(e) 2018.
Rydym yn chwilio am gyflwyniadau sy'n agored ac yn arloesol, sy'n datblygu ymarfer stiwdio arbrofol neu syniadau ymchwil. Rydym eisiau clywed gan artistiaid sy'n cymryd cyfeiriad newydd yn eu gwaith neu'n dechrau cydweithrediad newydd. Nid ydym yn disgwyl cynigion am arddangosfeydd neu brosiectau wedi'u cwblhau.

Gan gymryd ysbrydoliaeth oddi wrth grwpiau stiwdio, ysgolion celf annibynnol a gweithgareddau a arweinir gan artistiaid, mae ein tymor UNIT(e) yn troi g39 yn rhwydwaith o stiwdios prysur ac yn ganolbwynt ar gyfer ymchwil greadigol a datblygiad proffesiynol.

Byddwn yn llunio rhaglen gyfoethog ac amrywiol o artistiaid a churaduriaid gwadd a fydd yn dod i gynnal darlithoedd, gweithdai, sesiynau beirniadu grŵp a sesiynau un-i-un gyda deiliaid stiwdio. Unwaith yr wythnos rydym yn gwahodd y cyhoedd i ddod i mewn i weld y gwaith sy'n mynd rhagddo, a'r hyn nas gwelir yn aml, sef yr artistiaid wrth eu gwaith yn y stiwdio. Bydd y tymor yn terfynu â digwyddiad stiwdio agored.

Eleni, mae gennym ddiddordeb arbennig yn y modd y mae artistiaid mewn cymuned stiwdio yn gallu cefnogi ei gilydd mewn ffyrdd beirniadol trwyadl. Byddwn yn gwahodd nifer o siaradwyr gwadd i siarad am feirniadaethau a bod yn feirniadol, ac arwain sesiynau beirniadu stiwdio a dadleuon. Byddwn yn edrych ar amrywiaeth o ddulliau posib o feirniadu gwaith celf yn briodol, yn adeiladol ac yn bwyllog yn ystod y camau arbrofi. Rydym yn chwilio am gyflwyniadau a fydd yn manteisio ar y trafodaethau a'r cymorth gan y gymuned stiwdio. Rydym yn chwilio am gyfranogwyr sydd am gyfrannu at drafodaethau beirniadol mewn dulliau diddorol.

Gall deiliaid stiwdio UNIT(e) ddisgwyl:

- Gofod stiwdio ar gyfer ymchwilio, datblygu syniadau a chynhyrchu gwaith newydd.
- Cyfrifiaduron y gellir eu harchebu ar gyfer dylunio a golygu.
- Llyfrgell ymchwil ar y safle.
- Rhaglen o ddatblygu proffesiynol gan gynnwys darlithoedd, gweithdai a sesiynau un-i-un a arweinir gan artistiaid.
- Amrywiaeth o gyfarpar clyweled.
- Offer (efallai bydd angen profiad blaenorol i ddefnyddio offer pŵer) a chymorth technegol.
- Cyfle i gyflwyno a thrafod syniadau mewn amgylchedd beirniadol a chyfeillgar.
- Rhwydwaith o gymheiriaid ac alumni UNIT(e).
- Cyswllt rheolaidd â staff g39.
- Croeso cynnes a phryd o fwyd cymdeithasol rhagarweiniol.

Ni all UNIT(e) gynnig:

- Ffi
- Llety

Rydym yn annog yr artistiaid a ddewisir i gymryd rhan yn y rhaglen ar ei hyd. Efallai byddwn yn derbyn cynigion am gyfnodau llai lle bo angen, a lle y bydd cyfranogiad yr artist o fudd i'r naill ochr a'r llall o hyd. .
Efallai gallwn gefnogi ceisiadau unigol am gyllid i alluogi'r artistiaid a ddewisir i gymryd rhan yn y rhaglen. Ni fyddwn yn codi taliadau am unrhyw beth rydym yn ei gynnig fel rhan o raglen UNIT(e).

Ydw i'n gymwys?

Mae'r cyfle hwn yn agored i artistiaid gweledol cyfoes ar unrhyw adeg yn eu gyrfa, nad ydynt mewn addysg lawn amser.

Sut i ymgeisio

Gwnewch y canlynol:

- **Cyflwyno crynodeb (200 hyd at 300 gair) am sut y byddech yn defnyddio UNIT(e) i ddatblygu gwaith newydd, ymchwilio i syniadau newydd neu gymryd cyfeiriad newydd.**
  Egluro sut a pham fyddai hwn yn gyfle gwerthfawr i chi. Ceisiwch ysgrifennu mewn brawddegau byr a chlir. Dylai fod yn hawdd ei ddarllen a'i ddeall.

- **Datganiad artist byr (dim mwy na 150 gair).**
  Dylai hwn fod yn syml ac yn hawdd ei ddarllen hefyd. Ni fydd byth yn cwmpasu eich holl ymarfer, felly rhowch drosolwg o'ch prosesau, eich deunyddiau cyffredin a'ch prif ddiddordebau. Canolbwyntiwch ar eich gwaith diweddaraf.
  Noder: Gallwch gyflwyno eich crynodeb a'ch datganiad artist fel ffeil sain neu fideo (dim mwy na phum munud ar y cyfan).

- **Enghreifftiau o'ch gwaith**
  Gallai hyn fod yn unrhyw un o'r canlynol:
  - 10 delwedd (dim mwy na 2MB yr un), NEU
  - Clipiau byr o waith ffilm neu waith sain (dim mwy na phum munud ar y cyfan) NEU
  - Darnau o waith ysgrifenedig (hyd at 750 gair)

  Sicrhewch eich bod yn cynnwys teitlau, cyfryngau a'r flwyddyn gynhyrchu ar gyfer pob darn o waith. Bydd y deunyddiau hyn ar ein cyfer ni yn unig. Os byddwch yn anfon dolenni i wefannau neu wefannau sy'n cynnal fideos, nodwch pa waith yr hoffech i ni edrych arno.

- **CV diweddar.**
  Os ydych wedi graddio'n ddiweddar neu heb arddangos llawer hyd yn hyn, peidiwch â phoeni nad oes llawer o brofiad gennych eto. Y CV ydy'r rhan leiaf pwysig o'r cais i ni.

Gallwch gyflwyno eich cais trwy WeTransfer hefyd.

Cyfle Cyfartal

Rydym yn croesawu ceisiadau gan bobl waeth beth fo'u hanabledd, rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, statws priodasol, cyfrifoldeb teuluol, oedran, hil, cefndir ethnig, cenedligrwydd (yn ddarostyngedig i drwydded waith pan fo angen), aelodaeth a gweithgarwch undeb llafur, credoau gwleidyddol neu grefyddol. Cysylltwch â ni os ydych am dderbyn y ffurflen hon / gwneud cais mewn fformat gwahanol neu os bydd gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â hygyrchedd yn g39.

Anfonwch eich cais at **curator@g39.org**.

Rydym yn derbyn copïau caled o geisiadau ond mae'n well gennym gael ceisiadau drwy e-bost neu WeTransfer. Os ydych am anfon y cais drwy'r post, anfonwch ef i:

UNIT(e) 2018
G39
Stryd Oxford
CAERDYDD
CF24 3DT

Noder: Ni ellir dychwelyd unrhyw ddeunydd a gaiff ei bostio. Rhaid i'r cais gyrraedd erbyn y dyddiad cau ac ni allwn fod yn gyfrifol am bethau sy'n mynd ar goll yn y post neu sy'n cyrraedd yn hwyr.

Y dyddiad cau.

9 Ebrill am 10pm